William Penn 1644–1718

Crynwr a sylfaenydd Pennsylvania yn yr Unol Daleithiau

Ganwyd William Penn gerllaw Tŵr Llundain ar 14 Hydref 1644. Mab ydoedd i Syr William Penn, a oedd yn llyngesydd yn y Llynges Brydeinig, a Margaret Jasper. Roedd ei dad yn Bresbyteriad a'i fam yn Galfinydd Iseldiraidd. Cafodd addysg gartref hyd nes yr oedd yn un ar ddeg oed, yn ôl arfer y dosbarth breiniol yn y cyfnod hwnnw. Yna, aeth i Academi Chigwell ger Wanstead, Essex. Roedd dwy ran i'r academi, y naill yn arbenigo mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg a'r llall yn arbenigo yn y clasuron gan ddysgu Lladin a Groeg.

Ym 1660 aeth i Goleg Eglwys Crist, Rhydychen, lle yr ehangodd ei wybodaeth ac y daeth i adnabod nifer o bobl ddylanwadol. Treuliodd beth amser yn teithio Ewrop gan astudio pensaernïaeth dinasoedd fel Turin. Hefyd bu yn Academi'r Protestaniaid yn Saumur lle y bu wrth draed Moise Amyraut. Dylanwadodd hyn yn drwm arno. Ym 1664 dychwelodd i Loegr gan astudio'r gyfraith am ychydig yn Lincoln's Inn cyn mynd i Cork yn Iwerddon i ofalu am stad ei dad. Yn y cyfnod hwn coleddodd ddaliadau'r Crynwyr ac yn y blynyddoedd dilynol daeth yn Grynwr o argyhoeddiad ac aeth ar daith efengylu yn Ewrop.

Ym 1672 priododd Gulielma Maria Springett a oedd hefyd o deulu o Grynwyr cefnog. Cawsant dri mab a phedair merch. Erbyn hyn roedd yn gyfeillgar gyda George Fox, sylfaenydd y Crynwyr. Rhyngddynt aethant ati i ddatblygu syniadaeth ac athroniaeth Y Cyfeillion. Cyhoeddodd ym 1669 *No Cross, No Crown* a fanylai ar reolau ymddygiad y Crynwyr gan gynnwys eu gwisg. Tros y blynyddoedd cyhoeddodd ddeugain o lyfrau a thractiau a bu yn y carchar nifer o weithiau oherwydd ei ddaliadau. Gwaith pwysig o'i eiddo oedd *The Great Case of Liberty of Conscience* a ysgrifennodd fel ymateb i Ddeddf Confentigl 1670 a waharddai sectau fel y Crynwyr rhag ymgynnull i addoli.

Daeth i'r casgliad na fyddai modd cael goddefgarwch crefyddol ym Mhrydain ac felly aeth at y Brenin Siarl II i ofyn am siarter i sefydlu

trefedigaeth yn America. Cytunodd y brenin â'i gais gan roi iddo ddarn o dir 45,000 milltir sgwâr i'r dwyrain o afon Delaware. Rhoddwyd y tir yn rhannol iddo i dalu am ddyled o £16,000 oedd gan y goron i'w dad. Galwodd yr ardal i ddechrau yn New Wales ac yna yn Sylvania (o'r Lladin am goedwig). Yn ddiweddarach newidiwyd yr enw i Pennsylvania fel arwydd o barch i'r sylfaenydd. Ym 1682 hwyliodd Penn gyda nifer o Grynwyr eraill i America. Trwyddynt hwy fe sefydlwyd Philadelphia (dinas cariad brawdol). Hefyd fe sefydlodd Penn strwythurau llywodraethol ar sail rhyddid crefyddol, cydraddoldeb a goddefgarwch. Gwnaeth ymdrech arbennig i geisio cadw ar delerau da gyda'r brodorion sef yr Indiaid Iroquoi. Ym 1686 aeth fel Llysgennad ar ran y Brenin Iago II i'r Hâg.

Ym 1696 ailbriodododd gyda Hannah Callowhill, merch i fasnachwr dylanwadol o Fryste. Aeth ar ei ail ymweliad a'i ymweliad olaf â Phennsylvania ym 1699–1701. Erbyn hyn roedd y boblogaeth wedi cynyddu i 18,000. Bu farw ar 30 Gorffennaf 1718 yn Ruscombe, Berkshire, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent y Crynwyr, Jordans, Chalfont St Giles, Swydd Buckingham.